OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3101 (Cy.285)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*21 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006. Deuant i rym ar 1 Rhagfyr 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005(**3**).

Diwygio Rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau

3. Mae Rheoliad 2(1) wedi'i ddiwygio yn unol â pharagraffau (a) — (ch)—

(a) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn 795/2004" mewnosoder ", fel y diwygiwyd y Rheoliad Comisiwn hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 1291/2006"(**4**);

(b) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn 1973/2004" mewnosoder ", fel y diwygiwyd y Rheoliad Comisiwn hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 1250/2006"(**5**);

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2005/45.
(**4**) O.J. Rhif L236, 31.08.2006, t. 20.
(**5**) O.J. Rhif L227 19.08.2006, t.23.

(c) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor" mewnosoder ", fel y diwygiwyd y Rheoliad Cyngor hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) 953/2006"(**6**);

(ch) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliadau Trawsgydymffurfio 2004" mewnosoder "fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2005"(**7**).

Diwygio rheoliad 6 o'r prif Reoliadau

4. Yn Rheoliad 6(5) o'r prif Reoliadau, yn lle'r geiriau "31 Ionawr" rhodder y geiriau "9 Chwefror".

Diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

5.—(1) Mae Atodlen 1 i'r prif Reoliadau wedi'i diwygio'n unol â pharagraffau (2) i (8):

(2) Ar ôl paragraff 7(3) mewnosoder—

"(4) Ym mhob cae neu ran o gae y mae unrhyw un o'r opsiynau a grybwyllir ym mharagraff 1(1) yn cael ei weithredu, bydd ffermwr yn rhinwedd y ddarpariaeth hon yn cael ei drin fel un sy'n esempt rhag gofyniad i sefydlu gorchudd glas erbyn dechrau'r tymor gorchudd glas cyfredol yn unrhyw un o'r amgylchiadau a bennir yn is-baragraffau (5) i (7).

(5) Mae'r amgylchiad cyntaf yn codi —

(a) pan fyddo'r ffermwr wedi cymryd pob cam rhesymol i sefydlu gorchudd glas erbyn dechrau tymor y gorchudd glas;

(b) pan fyddo'r gorchudd glas wedi methu ac na fyddo wedi bod yn rhesymol bosibl i'r ffermwr atal y methiant hwnnw; ac

(c) pan fyddo'r ffermwr wedi gadael y gorchudd glas a fethodd i ganiatáu aildyfiant naturiol.

(6) Mae'r ail amgylchiad yn codi pan fyddo'r ffermwr—

(a) wedi hau cnwd ar y tir hwnnw cyn 1 Hydref yn y flwyddyn flaenorol er mwyn ei gynaeafu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw;

(b) wedi cynaeafu'r cnwd hwnnw ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw a chyn dechrau'r tymor gorchudd glas; ac

(c) wedi caniatáu aildyfiant naturiol ar ôl y cynhaeaf.

(7) Mae'r trydydd amgylchiad yn codi—

(a) pan fyddo'r ffermwr wedi hau cnwd ar y tir hwnnw cyn 1 Hydref yn y flwyddyn flaenorol i'w gynaeafu ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw;

(b) pan fyddo'r cnwd wedi methu gyda'r canlyniad nad oedd yn gallu dwyn cynhaeaf cyn dechrau'r tymor gorchudd glas ac na fyddo wedi bod yn rhesymol bosibl i'r ffermwr atal y methiant hwnnw; ac

(c) pan fo'r ffermwr wedi caniatáu aildyfiant naturiol ar ôl y cynhaeaf.

(8) Rhaid i ffermwr, mewn perthynas â'r cae neu'r rhan o gae lle caniataodd aildyfiant naturiol fel y cyfeiriwyd ato yn is-baragraffau (5) i (7), gydymffurfio â'r amodau a nodir yn y Rhan hon o'r Atodlen hon sy'n ymwneud ag opsiwn yr aildyfiant naturiol.

(9) Pan fo ffermwr yn cael ei drin fel un sy'n esempt yn rhinwedd is-baragraff (4), caiff sefydlu gorchudd glas serch hynny ar ôl dechrau'r tymor gorchudd glas drwy hau—

(**6**) O.J. Rhif L175, 29.06.2006, t.1.
(**7**) O.S. 2005/3367 (Cy.264).